WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad Er Budd y Cyhoedd – Diffygion o ran Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol – **Cyngor Cymuned Llanfrothen**

Blwyddyn archwilio: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1303A2019-20

Paratowyd yr adroddiad hwn sydd er budd y cyhoedd yn unol ag Adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb mewn perthynas ag unrhyw swyddog, aelod nac unrhyw un arall yn ei gymhwyster unigol nac unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Hefin Davies a Deryck Evans, dan oruchwyliaeth Anthony Barrett.

# Cynnwys

Gan weithredu dan drefniadau wedi'u dirprwyo ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn dan adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, i dynnu sylw'r cyhoedd at fethiannau o ran rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol yng Nghyngor Cymuned Llanfrothen.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi nifer o fethiannau o ran rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol yng Nghyngor Cymuned Llanfrothen ac yn gwneud argymhellion ar gyfer mynd i'r afael â'r methiannau hynny. Rhaid i'r Cyngor ystyried yr adroddiad a'r argymhellion a wnaed, yn unol ag adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio amodol ar Ffurflen Flynyddol y Cyngor ar gyfer 2017-18.


Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Canfyddiadau allweddol 5

Barn archwilio 6

Argymhellion a'r camau nesaf 7

Adroddiad manwl

Canfu'r archwilydd mewnol nifer o wendidau mewn trefniadau llywodraethu a rheolaeth fewnol a ddiystyrwyd gan y Cyngor pan gymeradwyodd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol 9

Nid yw'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r amserlenni statudol ar gyfer paratoi a chymeradwyo'i gyfrifon ar gyfer 2017-18 9

Nid yw'r Cyngor wedi cynnal system ddigonol o reolaethau mewnol i ddiogelu ei asedau a'i gyllid 12

Mae'r Cyngor wedi methu â sefydlu trefniadau priodol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag amryw gyfrifoldebau statudol 13

Nid oes digon o dystiolaeth i gadarnhau a oes trefniadau priodol wedi cael eu gwneud ar gyfer arfer hawliau'r cyhoedd ai peidio 15

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

### Diben y ddogfen hon

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghasgliadau sy'n deillio o'm harchwiliad o gyfrifon Cyngor Cymuned Llanfrothen (y Cyngor) ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-18. Yn ystod yr archwiliad, canfûm fethiannau arwyddocaol mewn trefniadau llywodraethu a diffygion mewn rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol.

2 Cyhoeddir yr adroddiad hwn er budd y cyhoedd dan Adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf). Rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn i dynnu sylw'r cyhoedd at y methiannau hyn mewn trefniadau llywodraethu a'r diffygion mewn rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol yn y Cyngor. Credaf ei bod yn bwysig bod gan y cyhoedd ymwybyddiaeth lawn a phriodol o'r digwyddiadau sy'n ymwneud â'r Cyngor.

3 Rwyf hefyd yn ei hystyried yn briodol rhoi cyfle i'r Cyngor ddangos y camau pwysig a gymerwyd eisoes i wella trefniadau ac i sicrhau bod y risg y bydd methiannau o'r fath mewn trefniadau llywodraethu'n digwydd eto'n cael ei leihau i'r eithaf. Mae gwersi i'w dysgu nid dim ond gan y Cyngor ond gan yr holl gynghorau cymuned yng Nghymru.

### Cyngor Cymuned Llanfrothen

4 Mae'r Cyngor yn gwasanaethu tri phentref yng Ngwynedd, sef Llanfrothen, Croesor a Rhyd. Mae'n gwario oddeutu £11,000 yn flynyddol ar wasanaethau lleol. Mae'n cyllido hyn â phraesept o ryw £5,800 gan Gyngor Gwynedd a ffioedd sy'n deillio o wasanaethau claddu. Mae Cyngor Gwynedd yn casglu'r praesept trwy dreth gyngor ychwanegol a godir ar drigolion y Cyngor. Daw cyllid y Cyngor o bwrs y wlad ac mae ei aelodau'n cael eu hethol gan drigolion lleol. Felly, er mai cyngor cymharol fach ydyw, mae'n atebol i'r etholaeth leol.

5 Mae cynghorau cymuned fel Llanfrothen, yn ôl eu natur fach iawn, yn dibynnu fel arfer ar un swyddog allweddol, y Clerc, i reoli eu materion gweinyddol. Yn amlach na pheidio, penodir y Clerc yng nghymhwyster Swyddog Cyllid Cyfrifol hefyd. Y Swyddog Cyllid Cyfrifol sy'n gyfrifol am weinyddu materion ariannol y Cyngor o ddydd i ddydd. Yn arbennig, mae hyn yn cynnwys cael a chofnodi incwm, paratoi taliadau â siec i'w llofnodi gan aelodau, cynnal y cofnodion cyfrifyddu a pharatoi'r datganiadau cyfrifyddu blynyddol.

6 Er bod rôl y Clerc/Swyddog Cyllid Cyfrifol yn bodoli, yn ôl y gyfraith (Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (Rheoliadau 2014)), mae'r cyfrifoldeb am warchod arian y Cyngor, gan gynnwys sicrhau bod ganddo reolaeth ariannol effeithiol ac effeithlon, yn gorwedd gyda'r Cyngor (hynny yw, yr aelodau). Mae hyn yn cynnwys pethau megis sefydlu system briodol o reolaeth fewnol, gan gynnwys

archwilio mewnol, a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu blynyddol cyn eu cyflwyno i'r archwilydd allanol i gael eu harchwilio.

## Fy ngwaith archwilio

7 Mae fy ngwaith archwilio ar gynghorau tref a chymuned yn canolbwyntio ar ffurflen flynyddol a gwblheir gan y cynghorau ac a gyflwynir i archwilwyr sy'n gweithio ar fy rhan. Mae'r ffurflen flynyddol yn cynnwys y datganiadau cyfrifyddu blynyddol y mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r cyngor eu paratoi a datganiad llywodraethu blynyddol sy'n nodi sut y mae'r cyngor wedi rheoli ei faterion ariannol.

8 Fe wnaeth oedi cyn cael y ffurflen flynyddol ar gyfer 2017-18 beri i'r archwilwyr a oedd yn gweithio ar fy rhan atgyfeirio Cyngor Cymuned Llanfrothen ataf fi. O ganlyniad, neilltuwyd yr archwiliadau hyn i aelod o staff Swyddfa Archwilio Cymru, a oedd yn gweithio dan fy nghyfarwyddyd i, er mwyn eu cwblhau'n foddhaol.

9 Caiff canfyddiadau fy archwiliad, sy'n datgelu elfennau o lywodraethu gwael a rheolaeth ariannol wael, eu crynhoi isod a chânt eu hystyried mewn mwy o fanylder yng ngweddill y ddogfen hon.

# Canfyddiadau allweddol

10 Yn ogystal â chyflwyno'r cyfrifon ar gyfer blwyddyn benodol, mae'r Ffurflen Flynyddol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud datganiad ffurfiol mewn perthynas â'r trefniadau sydd ganddo ar gyfer llywodraethu a rheolaeth ariannol. Cyfeirir at hyn fel y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

11 Mae fy ngwaith archwilio wedi canfod bod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn anghyson â'r honiadau cadarnhaol y mae wedi'u gwneud yn ei Ffurflen Flynyddol ar gyfer 2017-18 a grynhoir yn Arddangosyn 1 isod:

Arddangosyn 1: Datganiad Llywodraethu Blynyddol

| Honiad | Ymateb y Cyngor | Asesiad archwilio |
|---|---|---|
| Wedi paratoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu yn briodol | Do | Naddo |
| Wedi cynnal ac adolygu effeithiolrwydd system ddigonol o reolaeth fewnol, gan gynnwys mesurau sydd wedi'u bwriadu i atal a chanfod twyll a llygredigaeth | Do | Naddo |
| Wedi cymryd camau i sicrhau nad oes materion diffyg cydymffurfio â chyfreithiau, rheoliadau a chodau ymarfer | Do | Naddo |
| Wedi rhoi cyfle priodol i'r etholwyr arfer eu hawliau mewn perthynas â'r cyfrifon | Do | Naddo |
| Wedi cynnal asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r cyngor | Do | Naddo |

| Honiad | Ymateb y Cyngor | Asesiad archwilio |
|---|---|---|
| Wedi cynnal system ddigonol ac effeithiol o archwilio mewnol | Do | Do |
| Wedi ystyried effaith ariannol unrhyw ymgyfreithiad, rhwymedigaethau neu ymrwymiadau, digwyddiadau neu drafodion | Do | Heb ei adolygu |
| Cymerwyd camau priodol mewn perthynas ag adroddiadau archwilio mewnol ac allanol | Do | Naddo |
| Wedi ystyried lefel y cronfeydd wrth gefn a ddelir gan y Cyngor wrth bennu ei gyllideb | Do | Naddo |
| Wedi cynnal cyfrif ar wahân o grantiau a wnaed dan adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 | Do | Do |
| Wedi cadarnhau nad oes rhwymedigaeth ar y Cyngor i dalu arian rhodd ymddeoliad | Do | Do |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

12 Ar gyfer 2017-18, mae'r Cyngor wedi cwblhau ei ffurflen fel uchod ar y sail ei fod yn cydymffurfio â'r disgwyliadau mewn deddfwriaeth a chanllawiau cyhoeddedig. Lle gwnaed honiad cadarnhaol, nid yw wedi amodi ei ymatebion na darparu esboniadau ar feysydd lle mae naill ai'n ddiffygiol neu'n gweithio i sicrhau gwelliannau. Gwnaed yr honiadau hyn er bod archwilydd mewnol y Cyngor wedi nodi nifer o wendidau mewn trefniadau llywodraethu a rheolaethau mewnol

13 Yr hyn sy'n amlwg i mi yw nad yw'r Cyngor wedi cymryd camau digonol i'w argyhoeddi ei hun bod ei drefniadau llywodraethu'n effeithiol ac yn cael eu datgelu'n deg. Nid yw aelodau'r Cyngor wedi cydnabod materion yn ddigonol na gweithredu'n ddigonol ar faterion mewn perthynas â digonolrwydd ei drefniadau llywodraethu. Mae aelodau wedi cymeradwyo honiadau cadarnhaol a gaiff eu gwrthddweud gan y dystiolaeth a oedd ar gael i'r Cyngor pan gymeradwyodd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

14 Mae'r adran nesaf o'r adroddiad hwn yn nodi'r diffygion a'r gwendidau yn nhrefniadau'r Cyngor a oedd yn amlwg iawn i mi yn ystod yr archwiliad.

# Barn archwilio

15 Oherwydd y materion yr wyf wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn rwy'n bwriadu cyhoeddi barn archwilio amodol fel a nodir isod:

- mae'r Cyngor wedi methu â chynnal cofnodion cyfrifyddu priodol fel sy'n ofynnol yn ôl Rheoliad 6 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 ac felly nid wyf yn gallu dod i gasgliad pa un a yw'r datganiadau cyfrifyddu wedi cael eu paratoi yn unol ag arferion priodol a'r Rheoliadau;

- nid yw'r honiadau yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael eu hategu gan y dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad ac nid ydynt yn adlewyrchu trefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol y Cyngor.
- nid yw'r Cyngor yn cydymffurfio â'i gyfrifoldebau statudol ar gyfer:
  – mabwysiadu cod ymddygiad aelodau dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000;
  – cadw cofrestr o fuddiannau'r aelodau dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000;
  – cyhoeddi dogfennau dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013; a
  – gweithredu system TWE ar gyfer treth incwm dan Ddeddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003.

# Argymhellion a'r camau nesaf

## Fy argymhellion

16 Ar sail fy adolygiad, rwy'n tynnu sylw'r Cyngor at yr argymhellion arfaethedig canlynol:

### Arddangosyn 2: argymhellion

Rwy'n gwneud wyth argymhelliad i fynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd yn ystod yr archwiliad.

| Argymhellion | |
|---|---|
| A1 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod y Datganiad Cyfrifon yn cael ei baratoi a'i gymeradwyo cyn 30 Mehefin bob blwyddyn, ac yna'n cael ei anfon yn brydlon at yr Archwilydd Cyffredinol i gael ei archwilio a'i gyhoeddi erbyn 30 Medi. |
| A2 | Cyn cymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu a llywodraethu blynyddol, dylai'r Cyngor sicrhau bod ganddo ddigon o dystiolaeth i ategu'r honiadau y mae'n eu gwneud. |
| A3 | Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn cael copi o'r holl adroddiadau archwilio mewnol ac allanol ac yn cymryd camau priodol mewn ymateb i faterion a godir. |
| A4 | Dylai'r Cyngor adolygu ei system gyfrifyddu a'i system rheolaeth fewnol i sicrhau ei fod yn cynnal system effeithiol. |
| A5 | Dylai'r Cyngor sicrhau bod hawliau etholwyr i edrych ar y cyfrifon blynyddol ac ymgysylltu â'r archwilydd allanol (os ydynt yn dymuno) yn cael eu darparu'n ffurfiol ac y dangosir tystiolaeth o hynny. |
| A6 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn mabwysiadu Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau. |

| Argymhellion |
| --- |
| A7 Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn paratoi ac yn cadw cofrestr o fuddiannau'r aelodau. |
| A8 Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn nodi pa ddogfennau y mae'n ofynnol iddo'u cyhoeddi'n electronig ac yn gwneud trefniadau priodol i osod y rhain ar ei wefan yn brydlon. |

## Camau gweithredu a gymerwyd eisoes gan y Cyngor

17 Mae'n bwysig bod y Cyngor yn dysgu o'r canfyddiadau hyn ac yn mynd i'r afael â'r diffygion yr wyf wedi'u nodi. Mae'r Cyngor wedi fy hysbysu ei fod eisoes wedi cymryd rhai camau i wella'i drefniadau gan gynnwys:

- mabwysiadu Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau ym mis Gorffennaf 2019;
- paratoi cofrestr newydd o fuddiannau'r aelodau o fis Gorffennaf 2019;
- sicrhau bod yr hysbysiad archwilio ar gyfer archwiliad 2018-19 yn cael ei arddangos yn siop y pentref; a
- gweithredu system TWE o fis Ebrill 2019.

## Y camau nesaf

18 Mae adran 25 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor fynd ati yn awr i ystyried yr adroddiad yn un o gyfarfodydd y Cyngor llawn o fewn un mis i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad gennyf fi. Yn y cyfarfod hwnnw, bydd angen i'r Cyngor benderfynu:

- a yw'r adroddiad a/neu'r argymhellion yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd unrhyw gamau gweithredu;
- a yw'r argymhellion yn yr adroddiad a/neu'r argymhellion yn mynd i gael eu derbyn; a hefyd
- pa gamau (os o gwbl) i'w cymryd mewn ymateb i'r adroddiad a/neu'r argymhellion.

19 Wedyn bydd angen i'r Cyngor baratoi ymateb ysgrifenedig a chytuno ar eiriad yr ymateb hwnnw gyda mi cyn cyhoeddi ei ymateb mewn papur newydd lleol.



Anthony Barrett

Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol

Hydref 2019

# Adroddiad manwl

## Canfu archwilydd mewnol y Cyngor nifer o wendidau mewn trefniadau llywodraethu a rheolaeth fewnol a ddiystyrwyd gan y Cyngor pan gymeradwyodd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol

20 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (y Rheoliadau) yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl gynghorau cymuned sicrhau bod ganddynt system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol. Mae archwilio mewnol yn rhan bwysig o'r fframwaith rheolaeth fewnol ar y cyfan.

21 Er mwyn sicrhau bod ganddo reolaeth ariannol a threfniadau llywodraethu priodol, dylai'r Cyngor ystyried adroddiad yr archwilydd mewnol yn ofalus a chymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion a nodir.

22 Fel a gofnodwyd ar gefn y ffurflen flynyddol, fe gyflwynodd yr archwilydd mewnol adroddiad i'r Cyngor ar y materion canlynol:

- nid yw'r llyfr arian yn gywir yn rhifyddol;
- nid yw'r Cyngor wedi mabwysiadu ei reolau sefydlog yn ffurfiol na'u diwygio'n rheolaidd;
- ni chynhaliwyd unrhyw asesiad risg blynyddol;
- nid yw'r holl wariant yn y llyfr arian wedi'i ategu gan anfonebau;
- nid yw rôl, cyfrifoldebau a chydnabyddiaeth ariannol y clerc wedi'u dogfennu mewn cytundeb neu gontract;
- methwyd â gweithredu TWE yn briodol.

23 Mae'r materion a godwyd gan yr archwilydd mewnol yn dynodi nad oes gan y Cyngor gofnodion cyfrifyddu priodol na system rheolaeth fewnol effeithiol.

24 Ar y sail hon, rwy'n dod i'r casgliad bod honiadau'r Cyngor yn ei ddatganiad llywodraethu blynyddol yn darparu sicrwydd ffug ynghylch trefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol y Cyngor.

## Nid yw'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r amserlenni statudol ar gyfer paratoi a chymeradwyo'i gyfrifon ar gyfer 2017-18

25 Yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol mae'r Cyngor wedi honni ei fod wedi sefydlu trefniadau i baratoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu.

## Caiff y gofynion ar gyfer cymeradwyo a chyhoeddi cyfrifon y Cyngor eu nodi mewn statud

26 Dan Adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, rhaid i'r Cyngor:

- baratoi ei gyfrifon bob blwyddyn hyd at 31 Mawrth neu ba bynnag ddyddiad arall y gall Gweinidogion Cymru ei gyfarwyddo'n gyffredinol neu mewn unrhyw achos arbennig; a
- sicrhau bod ei gyfrifon yn cael eu harchwilio yn unol â Deddf 2004 gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

27 Mae Rheoliad 15 yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn nodi'r amserlen ar gyfer paratoi a chymeradwyo'r cyfrifon blynyddol:

- rhaid i Swyddog Cyllid Cyfrifol y cyngor baratoi'r cyfrifon ac ardystio eu bod yn cyflwyno derbyniadau a thaliadau'r cyngor yn briodol, neu'n rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol ac incwm a gwariant y cyngor. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu Ariannol yn rhoi llofnod a dyddiad i ddangos ei fod wedi ardystio'r datganiadau ariannol. Darperir ar gyfer llofnod a dyddiad mewn ffurflen flynyddol.
- rhaid i aelodau'r cyngor ystyried y datganiadau cyfrifyddu mewn cyfarfod llawn ac, yn dilyn eu hystyried, cymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu ar gyfer eu cyflwyno i'r archwilydd trwy benderfyniad gan y cyngor; ac yn dilyn eu cymeradwyo, sicrhau bod y sawl sy'n llywyddu yn y cyfarfod lle rhoddwyd y gymeradwyaeth honno i'r datganiadau ariannol yn rhoi llofnod a dyddiad arnynt.
- rhaid cwblhau'r camau hyn erbyn 30 Mehefin yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol.

28 Cyn gynted â phosibl ar ôl i'r Cyngor gymeradwyo'r ffurflen flynyddol rhaid iddi gael ei hanfon at yr archwilydd allanol y mae'n rhaid iddo yntau yn ei dro gwblhau ei archwiliad erbyn 30 Medi fan bellaf. Crynhoir y broses yn Arddangosyn 3 isod:

## Arddangosyn 3: y broses ar gyfer y cyfrifon ac archwilio

Mae'r trefniadau ar gyfer y cyfrifon ac archwilio'n dilyn y broses a nodir isod

Mae'r Swyddog Cyllid Cyfrifol/Clerc yn paratoi'r datganiadau cyfrifyddu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r tîm archwilio mewnol yn cwblhau'r adroddiad archwilio mewnol. Mae'r Swyddog Cyllid Cyfrifol yn ardystio'r ffurflen (o dan Ran 2 o'r Datganiad Cyfrifyddu Blynyddol) **cyn 30 Mehefin** ac yn cyflwyno'r ffurflen i'r corff.

→

Mae'r corff yn cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol erbyn 30 Mehefin. I ddangos hyn mae'r Cadeirydd yn llofnodi o dan Ran 2 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r Swyddog Cyllid Cyfrifol/Clerc yn anfon y Ffurflen Flynyddol a chopïau wedi'u hardystio o'r dystiolaeth y gofynnwyd amdani at yr archwilydd allanol sy'n gweithredu ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

→

Mae'r archwilydd allanol yn cwblhau'r archwiliad a hefyd:

Naill ai:

Os nad yw'n ofynnol ei diwygio o gwbl, mae'n ardystio'r Ffurflen Flynyddol ac yn ei hanfon yn ôl at y corff i'w chyhoeddi erbyn 30 Medi.

Neu:

Os yw'n ofynnol ei diwygio, mae'n hysbysu'r corff ynghylch materion (gan gynnwys diwygiadau). Mae'r corff yn diwygio'r Ffurflen Flynyddol, mae'r Swyddog Cyllid Cyfrifol yn ei hardystio drachefn ac mae'r corff yn ei chymeradwyo drachefn cyn ei hanfon yn ôl at yr archwilydd. Wedyn mae'r archwilydd yn ardystio'r Ffurflen Flynyddol ac yn ei hanfon yn ôl at y corff i'w chyhoeddi erbyn 30 Medi.

Ffynhonnell: Ffurflen flynyddol

29 Rhaid i'r cyngor hefyd gyhoeddi ei gyfrifon ynghyd ag unrhyw dystysgrif neu adroddiad archwilio erbyn 30 Medi. Os yw'n eu cyhoeddi cyn i'r archwiliad ddod i ben a bod dim barn o'r fath wedi cael ei rhoi, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi'r cyfrifon heb eu harchwilio a hysbysiad sy'n cynnwys datganiad ac esboniad bod yr archwilydd, ar y dyddiad cyhoeddi, heb roi unrhyw farn.

30 Ceir manylion pellach y gofynion ar gyfer paratoi, cymeradwyo ac archwilio Cynghorau Tref a Chymuned yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a ategir gan ganllawiau Un Llais Cymru/Cymdeithas y Clercod Cynghorau Lleol, 'Llywodraethu ac Atebolrwydd ar gyfer Cynghorau Lleol yng Nghymru – Canllaw i Ymarferwyr' (y Canllaw i Ymarferwyr).

## Mae'r Cyngor wedi methu â chyflwyno ei gyfrifon ar gyfer 2017-18 i mi i gael eu harchwilio yn unol â'r amserlen statudol

Arddangosyn 4: cymeradwyo'r cyfrifon blynyddol

| Blwyddyn ariannol | Dyddiad y cafodd y cyfrifon eu cymeradwyo gan y Cyngor | Dyddiad y cawsant eu cyflwyno i gael eu harchwilio |
|---|---|---|
| 2017-18 | Anhysbys | 10 Rhagfyr 2018 |

31 Mae Cadeirydd y Cyngor wedi llofnodi'r ffurflen flynyddol fel tystiolaeth bod y ffurflen flynyddol wedi cael ei chymeradwyo gan y Cyngor. Fodd bynnag, mae'r Cadeirydd wedi rhoi 9 Mehefin 1959 fel y dyddiad pan gymeradwywyd y ffurflen gan y Cyngor. Ni chafodd y ffurflen ei hardystio gan y Clerc tan 5 Tachwedd 2018 ac fe'i cyflwynwyd i gael ei harchwilio ar 10 Rhagfyr 2018. Nid oes unrhyw dystiolaeth yn ei gofnodion bod y Cyngor wedi ystyried a chymeradwyo'i gyfrifon a'i ddatganiad llywodraethu blynyddol ar gyfer 2017-18 cyn cyflwyno'r ffurflen flynyddol i gael ei harchwilio.

32 Mae fy adolygiad i o gofnodion y Cyngor yn dangos na wnaeth y Clerc roi cyfrif cyflawn a chytbwys i'r Cyngor o'i berfformiad o ran ymlynu wrth y terfynau amser hyn.

33 Er bod y ffaith bod y Clerc wedi bod yn hwyr yn cyflwyno'r Ffurflenni Blynyddol ar gyfer y ddwy flynedd wedi bod yn ffactor ym methiant y Cyngor i gydymffurfio â'i gyfrifoldebau statudol, rhaid i'r Cyngor ei hun gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb am y methiant hwn. Nid wyf wedi canfod unrhyw dystiolaeth bod y Cyngor wedi cymryd unrhyw gamau i ymdrin â'r mater o ran cyflwyno a chyhoeddi ei gyfrifon yn hwyr.

34 Ar y sail hon, rwy'n dod i'r casgliad nad yw Cyngor Cymuned Llanfrothen wedi cydymffurfio â'r amserlenni statudol a nodir uchod ar gyfer paratoi a chymeradwyo'i gyfrifon ar gyfer 2017-18. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon hyn.

# Nid yw'r Cyngor wedi cynnal system ddigonol o reolaethau mewnol i ddiogelu ei asedau a'i gyllid

35 Mae'r Cyngor wedi honni yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ei fod wedi cynnal system ddigonol o reolaeth fewnol ac wedi adolygu ei heffeithiolrwydd.

36 Mae'r Canllaw i Ymarferwyr yn nodi rhai enghreifftiau o'r mathau o reolaethau mewnol y dylai fod gan gynghorau cymuned ar eu gweithgareddau a'u trafodion. Caiff y rhain eu nodi yn Arddangosyn 5 isod ynghyd â'r trefniadau gwirioneddol y canfûm eu bod ar waith yn y Cyngor.

Arddangosyn 5: rheolaethau mewnol disgwyliedig

Nid oes gan y Cyngor reolaethau mewnol hanfodol i ddiogelu'r arian y mae'n ei reoli.

| Rheolaethau mewnol disgwyliedig | Canfyddiadau'r archwiliad |
|---|---|
| **Mae gan y Cyngor weithdrefnau priodol ar gyfer pennu a monitro'r gyllideb** | Er bod y Cyngor yn cael adroddiad bob hyn a hyn ar y balansau a ddelir yn ei gyfrif banc, nid oes tystiolaeth i ddangos bod y Cyngor wedi pennu cyllideb flynyddol yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a gafodd ei monitro'n effeithiol trwy gydol y flwyddyn. |
| **Mae gan y Cyngor drefniadau priodol i sicrhau mai dim ond pryniannau angenrheidiol ac wedi'u hawdurdodi sy'n cael eu gwneud ac mai dim ond ar gyfer nwyddau a gwasanaethau a gafwyd mewn gwirionedd a hynny am brisiau y cytunwyd arnynt y mae'r Cyngor yn gwneud taliadau.** | Nid yw taliadau wastad wedi'u hategu gan wybodaeth ddigonol, e.e. ni ddarparwyd gwybodaeth ategol ar gyfer treuliau'r clerc presennol na threuliau terfynol y clerc blaenorol. |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

37 Yn seiliedig ar y materion yr wyf wedi'u nodi uchod a'r materion a nodwyd gan archwilydd mewnol y Cyngor, rwy'n dod i'r casgliad nad oedd gan y Cyngor, yn ystod 2017-18, system ddigonol o reolaeth fewnol ar waith.

# Mae'r Cyngor wedi methu â sefydlu trefniadau priodol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag amryw gyfrifoldebau statudol

38 Yn ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol mae'r Cyngor yn honni ei fod wedi cymryd pob cam rhesymol i sicrhau nad oes unrhyw faterion o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol na phosibl â deddfau, rheoliadau a chodau ymarfer.

39 Fodd bynnag, canfu fy archwiliad nifer o feysydd lle nad yw'r Cyngor yn cydymffurfio â gofynion statudol.

## Mae'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio â'r gofyniad yn Neddf Llywodraeth Leol 2000 i fabwysiadu Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau

40 Rhan hanfodol o fframwaith llywodraethu unrhyw gorff yw'r ymddygiad a ddangosir gan aelodau'r corff hwnnw. Fe greodd Deddf Llywodraeth Leol 2000 fframwaith moesegol newydd ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru. Fe greodd bŵer i

Weinidogion Cymru gyhoeddi cod ymddygiad enghreifftiol i fod yn berthnasol i aelodau ac aelodau cyfetholedig yr holl awdurdodau perthnasol yng Nghymru.

41 Mae'n ofynnol i gynghorau lleol fabwysiadu'r Cod enghreifftiol yn ei gyfanrwydd, ond gallant wneud ychwanegiadau at y Cod, ar yr amod bod y rhain yn gyson â'r Cod Enghreifftiol. Wedyn mae'r Cod a fabwysiadwyd yn lleol yn rhan annatod o fframwaith llywodraethu'r cyngor unigol.

42 Yn ystod fy archwiliad nid oeddwn yn gallu dod o hyd i dystiolaeth bod y Cyngor wedi mabwysiadu Cod Ymddygiad ar gyfer yr aelodau.

## Mae'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio â'r gofyniad yn Neddf Llywodraeth Leol 2000 i fabwysiadu, cadw a chyhoeddi cofrestr o fuddiannau'r aelodau

43 Wrth gyflawni eu dyletswyddau, mae angen i aelodau benderfynu a oes ganddynt fuddiant personol ac, os felly, a oes angen iddynt ei ddatgelu. Lle mae gan aelodau fuddiant y mae angen iddynt ei ddatgelu, rhaid iddynt ddatgelu ei natur mewn cyfarfodydd, wrth wneud sylwadau ysgrifenedig (gan gynnwys negeseuon e-bost) ac wrth wneud sylwadau ar lafar. Mae'r datgeliad hwn yn ofynnol hyd yn oed os yw'r buddiant wedi'i gofnodi ar gofrestr buddiannau'r Cyngor.

44 Mae Adran 81 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau gadw cofrestr o fuddiannau a ddatgelwyd a chyhoeddi'r gofrestr honno'n electronig.

45 Canfu fy archwiliad nad yw'r Cyngor yn cynnal cofrestr o fuddiannau ac, felly, nad yw'n cydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 2000. Er y gall aelodau fod yn ymwybodol o'r angen i ddatgelu buddiannau mewn cyfarfodydd, mae'r Cyngor wedi methu â chydnabod bod rhaid iddo gadw a chyhoeddi cofrestr hefyd.

## Er bod gan y Cyngor wefan, nid yw'n cyhoeddi'r holl ddogfennau y mae'n ofynnol iddo'u cyhoeddi'n electronig

46 Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (Deddf 2013) yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor lleol drefnu bod eu manylion cyswllt a manylion eu haelodau, a chofnodion eu trafodion ar gael dros y rhyngrwyd. Mae Deddf 2013 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor gyhoeddi eu cofrestr o fuddiannau'r aelodau, hysbysiadau cyhoeddus a chyfrifon archwiliedig yn electronig.

47 Mae'r newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf 2013 wedi'u bwriadu i wella atebolrwydd cynghorau lleol i'w hetholaethau.

48 Er bod y Cyngor wedi sefydlu gwefan, canfu fy archwiliad nad yw wedi cyhoeddi'r wybodaeth y mae'n ofynnol iddo'i chyhoeddi'n electronig. Nid yw'r wefan yn cynnwys copi o gofrestr y Cyngor o fuddiannau'r aelodau, hysbysiadau archwilio, cyfrifon archwiliedig na chofnodion cyfarfodydd.

## Nid yw'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldeb statudol i weinyddu TWE ac i ddarparu datganiad ysgrifenedig o'r telerau ac amodau cyflogaeth ar gyfer ei glerc

49 Fel cyflogwr, mae Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 a Rheoliadau Treth Incwm (TWE) 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor weithredu system Talu Wrth Ennill (TWE) mewn perthynas â threth incwm a chyfraniadau yswiriant gwladol.

50 O dan TWE, rhaid i'r Cyngor ddidynnu Treth Incwm a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogeion o gyflog cyflogeion ac anfon y symiau a ddidynnwyd i Cyllid a Thollau EM ynghyd ag unrhyw Gyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwr.

51 Rhaid i'r holl gyflogwyr gofrestru gyda Cyllid a Thollau EM oni bai nad oes unrhyw un o'u cyflogeion yn cael cyflog o fwy na £116 neu fwy yr wythnos, yn cael treuliau a buddion, yn meddu ar swydd arall neu'n cael pensiwn. Fodd bynnag, mae'n dal yn ofynnol iddynt gadw cofnodion ar gyfer y gyflogres.

52 Canfu fy archwiliad nad yw'r Cyngor wedi'i gofrestru fel cyflogwr gyda Cyllid a Thollau EM ac nad yw wedi sefydlu trefniadau priodol i ddidynnu treth incwm dan TWE. Nid yw'r Cyngor wedi darparu tystiolaeth i ddangos bod ganddo hawl i esemptiad rhag yr angen i gofrestru gyda Cyllid a Thollau EM. Ar ben hynny, nid yw'r Cyngor wedi cadw cofnodion priodol ar gyfer y gyflogres.

53 Yn ychwanegol at y diffyg cofnodion ar gyfer y gyflogres, rwy'n nodi nad yw'r Cyngor wedi darparu contract cyflogaeth ysgrifenedig ar gyfer y clerc. Cytundeb rhwng cyflogwr a chyflogai yw contract cyflogaeth a dyma'r sail i'r berthynas gyflogaeth. Er nad oes angen i gontract cyflogaeth fod yn ysgrifenedig er mwyn bod yn ddilys yn gyfreithiol, mae contract ysgrifenedig yn sicrhau bod y naill barti a'r llall yn deall eu cyfrifoldebau dan y contract.

54 Hyd yn oed os yw'r contract cyflogaeth yn bodoli ar lafar, mae gan gyflogeion hawl gyfreithiol i ddatganiad ysgrifenedig o'r prif delerau ac amodau cyflogaeth o fewn dau fis calendr i ddechrau yn y swydd. Dylai hwn gynnwys manylion materion megis cyflog, gwyliau ac oriau gwaith. Nid yw'r Cyngor wedi darparu datganiad ysgrifenedig o delerau ac amodau.

# Nid oes digon o dystiolaeth i gadarnhau a oes trefniadau priodol wedi cael eu gwneud ar gyfer arfer hawliau'r cyhoedd ai peidio

55 Yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol mae'r Cyngor wedi honni ei fod wedi darparu cyfle priodol ar gyfer arfer hawliau etholwyr yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (rheoliadau 2014).

## Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i wneud trefniadau i etholwyr arfer eu hawliau dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

56 Mae Adrannau 30 a 31 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn gwneud darpariaeth ar gyfer hawliau'r cyhoedd i edrych ar y cyfrifon sydd i'w harchwilio, i holi'r archwilydd am y cyfrifon ac i wneud gwrthwynebiadau i'r archwilydd ynglŷn ag unrhyw fater y mae gan yr archwilydd y pŵer i wneud y canlynol mewn perthynas ag ef:

- gwneud cais am ddatganiad bod eitem yn y cyfrifon yn anghyfreithlon; ac
- unrhyw fater arall y mae gan yr archwilydd y pŵer i lunio adroddiad arno dan adran 22 o Ddeddf 2004.

57 Mae Rheoliad 17 yn Rheoliadau 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor roi hysbysiad trwy hysbyseb i'r cyhoedd mewn lle neu leoedd amlwg a hwnnw'n nodi'r cyfnod pan fo'r cyfrifon a dogfennau eraill ar gael iddynt edrych arnynt ac yn rhoi'r manylion canlynol:

- y lle y byddant, a'r oriau pan fyddant, ar gael ar gyfer hyn;
- enw a chyfeiriad yr archwilydd;
- y darpariaethau yn adran 30 ac adran 31 o Ddeddf 2004; a hefyd
- y dyddiad a bennwyd dan Reoliad 21 o Reoliadau 2014.

## Mae'r Cyngor wedi methu â darparu tystiolaeth i ddangos ei fod wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer arfer hawliau etholwyr dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

58 Er y gofynnwyd yn benodol am hynny ar gyfer yr archwiliad, mae'r Cyngor wedi methu â darparu unrhyw dystiolaeth ei fod wedi cydymffurfio â gofynion Deddf 2004 a Rheoliadau 2014. Felly, er mwyn sicrhau bod etholwyr y Cyngor yn cael y cyfle i arfer eu hawliau dan Ddeddf 2004, fe bennais 29 Gorffennaf 2019 fel y dyddiad cyntaf pan all etholwyr lleol arfer eu hawliau ar gyfer cyfrifon 2017-18.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru